# Gwinwydden Gwydyr

*Datblygu Cymuned Iach a Chryf yn Nyffryn*

Cyfrol 21 ~ Tachwedd 2025

## Dymuniadau Gorau ar gyfer Ymddeoliad Hapus Rosie!



Yn dilyn 21 mlynedd o wasanaeth ymroddgar, fe wnaeth Rosie ymddeol o Golygfa Gwydyr ym mis Ebrill 2025.

Mae ei hegni, caredigrwydd ac ymroddiad wedi gadael gwaddol parhaol yn y gymuned. Yn wir mae cyfraniad Rosie wedi bod yn annatod i siapio nod Golygfa Gwydyr. Hoffem estyn diolch i Rosie am ei gwaith arbennig a dymuno pob hapusrwydd iddi ar ei hymddeoliad. Llongyfarchiadau Rosie – byddem yn gwerthfawrogi dy effaith am flynyddoedd maith!



## Ffair yr Hydref – Clodfori Cymuned a Chreadigrwydd

Ar Fedi'r 27ain, cynhaliodd Golygfa Gwydyr ein Ffair yr Hydref flynyddol! Aeth y Grŵp Crefftau ati i greu ystod anhygoel o anrhegion wedi'u gwneud â llaw i'w gwerthu a bu Feronia yn gwerthu planhigion blodau gwyllt brodorol. Cyrhaeddodd y gwesteion i sŵn Band GG yn chwarae yn y cefndir, a osododd y naws berffaith ar gyfer y diwrnod.

Aeth yr ymwelwyr rhagddi i fwrw golwg ar ystod o arddangosfeydd yn dangos llwyddiannau Golygfa Gwydyr dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys ein Sesiynau Lles, Adfer y Goedwig a Gweithgareddau Cymdeithasol. Roedd yn gyfle gwerth chweil i rannu ein taith a chlywed gennych chi. Fe wnaethom ofyn am eich barn am Golygfa Gwydyr a beth hoffech chi inni ei gyflawni yn y dyfodol. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth yn fawr a bydd yn help inni lywio ein gweledigaeth a chefnogi cais sylweddol am gyllid y Loteri ar gyfer 2026.

Diolch yn fawr iawn i bawb ynghlwm.

## Gwaith Coedwig Parhaus


Bellach mae'n flwyddyn ers Storm Darrah, ac rydym yn dal wrthi'n ddiwyd yn adfer ac yn gwella safle coedwig Caerdroia yng Nghoedwig Gwydir. Yn ddiweddar, cafodd rhagor o goed cwymp eu symud, gan olygu mwy o le a goleuni ar gyfer ailblannu. At hyn, bu inni osod llwybrau newydd drwy'r ardaloedd sy'n cael eu defnyddio'n fwyaf aml, gan ddefnyddio chwe thunnell o raean i greu llwybrau cerdded mwy diogel, heb fwd, i bawb eu mwynhau.

Yn yr Ardd Goedwig, rydym wedi creu planhigfa ficro i dyfu ein coed ifanc ein hunain o goed collddail brodorol gan gynnwys derw, cyll a chastan melys. Mae gwelyau'r blanhigfa wedi'u hesgyn oddi wrth y ddaear fel ei fod yn haws gweithio gyda nhw ac i docio'r prif wreiddiau wrth iddyn nhw ddatblygu, gan helpu i gynhyrchu coed ifanc cryf i'w hail-blannu ar y safle. Y tymor hwn fe gawsom fanteisio ar gnwd go fawr o riwbob a mafon! Mae'r rhain wedi ein cynorthwyo gydag ein sesiynau ar y safle a byddwn yn mynd ati i wneud jam blasus gyda nhw ar gyfer ein hadeilad cymunedol.



## Gwefan Newydd Golygfa Gwydyr

Mae ein gwefan wedi'i ail-ddylunio'n gyfan gwbl fel ei fod yn haws nac erioed i fwrw golwg ar ein digwyddiadau ar y gweill. At hyn, gallwch ddod o hyd i lu o wybodaeth am ein prosiectau, digwyddiadau a ffyrdd o gymryd rhan. Ewch ati i gael golwg ar y wefan a rhannwch eich barn gyda ni, byddem yn ddiolchgar dros ben o'ch adborth! golygfagwydyr.org/cy





## Darganfyddwch Awyr y Nos 2025

Dychwelodd y digwyddiad *Darganfyddwch Awyr y Nos* ym mis Awst 2025, gyda dros 400 o bobl o bob oedran yn mynychu mewn dau leoliad yn Llanrwst. Cynhaliodd Eglwys Sant Grwst y planetariwm dros dro, gyda dwy sioe am ddim bob awr. Roedd y llyfrgell yn ferw o brysurdeb gyda gweithgareddau ymarferol, o arbrofion gwyddoniaeth a chrefftau creadigol i bensetiau realiti rhithwir. Rhannodd Dani Robertson, Swyddog Awyr y Nos ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri, fanylion am syllu ar y sêr a llygredd golau.

Diolch o galon i'n gwirfoddolwyr gwych ac i Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau a Llyfrgelloedd Conwy am eu cefnogaeth. sarahs@golygfagwydyr.org

## Beth rydym yn ei gynnig

- Toiled, WiFi, Te a Choffi
- Gweithgareddau a Chyrsiau Lles
- Cyfleoedd Cwnsela
- Rheoli Coetir
- Cydweithfa Tanwydd Coed Cymunedol
- Gweithgorau
- Therapi Tylino
- Cyfleoedd Gwirfoddoli

**Dydd Llun**
Grŵp Crefftau : 10:30 - 12:00

**Dydd Mawrth**
Sesiynau Cerddoriaeth: 10:00 - 12:00

**Dydd Iau**
Sied y Dynion: 10:30 - 12:30

**Dydd Gwener**
Grŵp Cyfeillgarwch: 13:30 - 15:00

## Cyrsiau Lles mewn Natur yn Cefnogi Trigolion Lleol a Staff y GIG



Yn ystod yr Hydref hwn cynhaliwyd dau Gwrs Lles mewn Natur, 6 wythnos o hyd, mawr eu hangen yng Nghaerdroia. Roedd modd i'r gymuned fanteisio ar un ac Ymarferwyr y GIG fanteisio ar y llall. Roedd y ddau gwrs dan eu sang gyda nifer o bobl ar y rhestrau aros yn ogystal.

Bu i'n Swyddog Lles, ynghyd â Chynghorydd lleol ddatblygu'r cyrsiau i hybu iechyd meddwl a chorfforol, lle mae straen a gorbryder, i enwi ambell i broblem, yn effeithio ar fywydau pobl. Roedd cyfle i'r rheiny oedd yn cymryd rhan fanteisio ar hunanofal, cysylltu gyda natur a rhoi cynnig ar ymwybyddiaeth ofalgar. Mae'r cyrsiau wedi helpu'r rheiny oedd yn cymryd rhan i ddychwelyd i'r gwaith a gwella'u hansawdd bywyd. I wybod mwy:

sianw@golygfagwydyr.org    golygfagwydyr.org/cy/what-we-do/wellbeing

## Grŵp Crefftau

Pob bore Llun, mae crefftwyr lleol yn dod ynghyd i greu, rhannu sgiliau a dysgu technegau newydd gan Christine, ein harweinydd Grŵp Crefftau dawnus sy'n meddu ar gyfoeth o sgiliau o gwilsio papur i byrograffeg. Gallwch fwynhau paned, sgwrs a chyfle i ganolbwyntio mewn distawrwydd wrth ichi fwrw iddi gyda'ch prosiectau.



Eleni, bu i'r grŵp gynnal gweithgareddau yn Glasdir ar gyfer y Digwyddiad Darganfyddwch Awyr y Nos, yn ein Ffair yr Hydref, ac fe gawson nhw wahoddiad gan Gwmni Theatr Pig Town i gyfrannu tuag at ludwaith tapestri yn portreadu Afon Conwy o'i tharddiad i'r môr.

## Sesiynau Cerddoriaeth

Pob dydd Mawrth mae croeso i unrhyw un o unrhyw oed a gallu ymuno yn ein sesiwn gerddoriaeth acwstig. Gallwch ddod ag offeryn, defnyddio'ch llais (neu eistedd a gwrando), mae digonedd o le i ymuno a mwynhau'r gerddoriaeth gyda phaned.

## Gwirfoddoli gyda Ni!

Rydym bob amser yn chwilio am wirfoddolwyr newydd i ymuno gydag ein cymuned sy'n prysur dyfu, boed hynny'n cynnig help llaw yn y goedwig neu yn ein canolfan gymunedol.

golygfagwydyr.org/cy/support-us

GOLYGFA GWYDYR

Mae Golygfa Gwydyr yn fenter gymdeithasol yn Llanrwst gafodd ei sefydlu yn 2004. Rydym ni'n fudiad nid-er-elw gyda'r gymuned yn ganolog i'n gwaith. Mae ein gwerthoedd yn canolbwyntio ar bobl y gymuned yn cymryd rhan, arfer gwrth-wahaniaethol ac arfer sydd â'r sylw canolog ar yr unigolyn. Rydym ni'n creu incwm trwy logi ystafelloedd, gwerthu tocynnau ar gyfer digwyddiadau, cyrsiau a gwaith codi arian ond rydym ni'n dibynnu llawer ar gymorth grantiau. Rydym ni'n cyflogi tri swyddog prosiect sy'n adrodd i fwrdd o Gyfarwyddwyr sy'n cynnwys 8 o bobl leol y gymuned.


**Roger Davies**
Ysgrifennydd y Cwmni a Rheolwr Cyffredinol
+44 (0) 1492 642110
rogerd@golygfagwydyr.org

**Golygfa Gwydyr**
Stryd yr Arad
Llanrwst
LL26 0AG
+44 (0) 1492 642110
info@golygfagwydyr.org
golygfagwydyr.org/cy

**Dilynwch Ni ar y Cyfryngau Cymdeithasol:**
/GolygfaGwydyrLlanrwst
/golygfagwydyr_official



Cronfa Treftadaeth | Heritage Fund
Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru | In Partnership with Welsh Government
Cymorth Cymunedol Gwirfoddol Conwy | Community Voluntary Support Conwy
Conwy — Cyngor Bwrdeistref Sirol | County Borough Council
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | Funded by UK Government
Partneriaeth Tirwedd y Carneddau Landscape Partnership
Llyfrgelloedd Conwy Libraries